

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu) 2021.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
25 Tachwedd 2021

MEMORANDWM ESBONIADOL

Disgrifiad

1. Mae ardrethi annomestig yn dreth leol sy'n codi refeniw ar eiddo a ddefnyddir at ddibenion annomestig, er enghraifft adeiladau cyhoeddus, siopau, ffatrioedd, swyddfeydd, cyfleusterau hamdden, ysgolion ac ysbytai. Yn 2021-22, amcangyfrifir y bydd ardrethi annomestig yng Nghymru yn cynhyrchu dros £1.1 biliwn (net). Dosberthir yr holl refeniw i lywodraeth leol i helpu i ariannu gwasanaethau lleol yng Nghymru.
2. Drwy gydol y pandemig, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisió wedi bod yn delio â nifer cynyddol o apelau ardrethi annomestig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhan fwyaf o'r apelau hyn wedi'u gwneud o dan bennawd Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau a'u cyflwyno gan dalwyr ardrethi gyda'r bwriad o leihau eu hatebolrwydd ardrethi annomestig ar y sail bod mesurau a chyfyngiadau'r llywodraeth a osodwyd mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi effeithio'n negyddol ar werth ardrethol eu heiddo.
3. Cafodd *Rheoliadau Prisió ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021* (y Rheoliadau presennol) eu gwneud i egluro'r tybiaethau sydd i'w gwneud wrth bennu gwerth ardrethol hereditament yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 6 i *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988* (Deddf 1988).
4. Rhagwelir y bydd y Rheoliadau presennol yn cael eu disodli gan ddarpariaethau ar gyfer Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y *Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd)* (y Bil) sy'n mynd rhagddo drwy Senedd y DU.
5. Mae'r offeryn statudol hwn yn dirymu'r Rheoliadau presennol, yn amodol ar basio'r Bil. Ni fydd angen y Rheoliadau presennol mwyach pan gaiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol, gan y bydd darpariaethau yn y Bil yn cael yr un effaith. Felly, bydd angen dirymu'r Rheoliadau presennol er mwyn osgoi dyblygu a diffyg eglurder yn y llyfr statud.
6. Mae angen gwneud Rheoliadau Prisió ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu) 2021 yn awr.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

7. Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd bod risg i'r Rheoliadau beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod. Disgwylir i'r offeryn statudol hwn ddod i rym ar y diwrnod y caiff y Bil ei basio ac mae posibilrwydd y bydd hyn yn dod o fewn y cyfnod o 21 diwrnod. Er bod yr offeryn statudol hwn wedi'i wneud mor gyflym â phosibl ar ôl i'r Rheoliadau presennol gael eu gwneud, dim ond os bydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol y bydd yn ofynnol iddo ddod i rym.

Y cefndir deddfwriaethol

8. Mae adran 43 o Ddeddf 1988 yn nodi sut y mae cyfrifo atebolrwydd talwr ardrethi ar gyfer drethi annomestig ar eiddo a feddiannir. Cyfrifir yr atebolrwydd ardrethol sylfaenol ar gyfer eiddo drwy luosi gwerth ardrethol yr eiddo â'r lluosydd.
9. Mae adran 56 o Ddeddf 1988 yn cyflwyno Atodlen 6 i'r Ddeddf honno. Mae'r Atodlen yn nodi'r darpariaethau sydd i'w cymhwyso wrth bennu gwerth ardrethol hereditamentau annomestig.
10. Mae paragraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 yn cynnwys swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi rhagdybiaethau sydd i'w cymhwyso i ddosbarth rhagnodedig o hereditament, wrth bennu ei werth ardrethol. Mae rheoliadau sy'n nodi amodau ar gyfer apelio yn erbyn gwerth ardrethol hereditament yn dod o fewn y pŵer hwn.
11. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol ym mharagraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae Deddf 1988 yn ddeddfiad y cyfeirir ato yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw ac a drosglwyddwyd ganddo gan Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedyn i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
12. Mae adran 14 o Ddeddf Ddehongli 1978 yn darparu, pan fo Deddf yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau, oni bai bod y bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos, bod pŵer ymhlyg i ddirymu unrhyw offeryn a wneir gan ddefnyddio'r pŵer hwnnw. Gwneir yr offeryn statudol hwn gan ddefnyddio'r pŵer ym mharagraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988, sef y pŵer a ddefnyddir i wneud y Rheoliadau presennol.
13. Mae'r Rheoliadau'n dilyn y weithdrefn negyddol.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Y broses apelio

14. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisió yn un o asiantaethau gweithredol Cyllid a Thollau EM ac mae'n gyfrifol am bennu gwerth ardrethol pob eiddo annomestig yng Nghymru er mwyn cyfrifo eu hatebolrwydd ardrethi. Gall talwyr ardrethi wneud apêl i'r Asiantaeth os ydynt yn credu bod eu gwerth ardrethol yn anghywir.
15. Un sail o'r fath ar gyfer apelio yw Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau. Yn hanesyddol, mae apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau wedi ymwneud â digwyddiadau untro, megis llifogydd neu waith ffordd, yn hytrach na newidiadau mewn amodau ar draws y farchnad. Ystyrir amodau ehangach

y farchnad fel rhan o'r ailbrisió statudol ar eiddo annomestig. Daw'r ailbrisiad nesaf i rym ar 1 Ebrill 2023 ar sail gwerthoedd a aseswyd ar 1 Ebrill 2021.

16. Yn ystod y pandemig bu cynnydd sylweddol yn nifer yr apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau, a oedd yn dweud bod cyfyngiadau COVID-19 yn Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau. Yn ogystal â pheri risg i gyllid cyhoeddus a'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau lleol, mae lefel yr apelau yn creu heriau gweinyddol i Asiantaeth y Swyddfa Brisió a Thribiwnlys Prisió Cymru ac yn creu ansicrwydd i dalwyr ardrethi.

Cymorth coronafeirws

17. Drwy gydol y pandemig, mae talwyr ardrethi wedi cael cymorth â'u hatebolrwydd ardrethi annomestig drwy becyn helaeth o gynlluniau rhyddhad a grantiau. Os nad yw cymorth wedi bod ar gael drwy ryddhad ardrethi annomestig neu grantiau'n seiliedig ar ardrethi annomestig, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio lleihau caledi economaidd drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd. Mae'r cynlluniau rhyddhad ardrethi annomestig, y grantiau'n seiliedig ar ardrethi annomestig a'r Gronfa Cadernid Economaidd wedi'u cynllunio i dargedu cymorth mewn modd sydd o fudd i'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan effeithiau economaidd y pandemig.

Y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysó Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd

18. Er mwyn mynd i'r afael â phob apêl Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a wnaed ers dechrau'r pandemig, cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil. Bydd hwn yn gwneud newidiadau i'r gyfraith yn ôlweithredol, a bydd yn atal pob apêl Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ceisio dibynnu ar faterion sy'n ymwneud â COVID-19.
19. Cyflwynwyd y Bil i Dŷ'r Cyffredin ar 12 Mai ac mae'n aros am Gyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 1 Rhagfyr. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil gerbron Senedd Cymru ar 21 Medi. Cyflwynodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adroddiad ar 18 Tachwedd. Cynhaliwyd dadl yn y cyfarfod llawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 23 Tachwedd a chytunodd y Senedd y dylai darpariaethau sy'n gymwys i Gymru gael eu cynnwys yn y Bil.

Prif ddiben y deddfwriaeth

20. Prif ddiben yr offeryn statudol hwn yw dirymu'r Rheoliadau presennol sy'n atal cyflwyno apelau pellach sy'n cyfeirio at Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ymwneud â COVID-19, er mwyn diogelu cyllid cyhoeddus.
21. Mae darpariaethau ar gyfer Cymru wedi'u cynnwys yn y Bil a bydd hynny'n golygu nad oes angen y Rheoliadau presennol ar gyfer Cymru.

22. Mae *Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu) 2021* bellach yn cael eu gwneud.

Ymgynghori

23. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol mewn perthynas â'r offeryn statudol hwn gan ei fod yn ddeddfwriaeth hanfodol y mae angen ei gwneud ar frys er mwyn osgoi dyblygu darpariaethau sy'n ymwneud â'r tybiaethau sydd i'w gwneud wrth gymhwyso darpariaethau is-baragraffau (1) i (7) o baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

24. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan nad yw'n newid effaith y polisi mewn unrhyw ffordd arwyddocaol o ystyried cynnwys y Bil. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.